**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 24 Medi 2013**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Dim. |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Ni ddatganodd unrhyw Aelod gysylltiad personol neu ragfarnllyd i unrhyw fater sy'n cael ei ystyried yn y cyfarfod. |
| **3** | MATERION BRYS | Ni chodwyd unrhyw eitem y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater brys dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD:*** *- y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar ddydd Mawrth 30 Gorffennaf 2013 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.* |
| **5** | YR WYBODAETH DDIWEDDARAF AM YR ADRODDIAD ARIANNOL | Cyflwynodd y Cyng. Julian Thompson-Hill yr adroddiad, a gylchredwyd yn flaenorol, a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar sefyllfa ariannol bresennol y Cyngor.<br><br>***PENDERFYNWYD -***<br><br>*(a) bod y Cabinet yn derbyn yr adroddiad ac yn nodi'r cynnydd yn erbyn y strategaeth gyllidebol y cytunwyd arni, a*<br>*(b) cyflwyno adroddiad diweddaru ar ddarpariaeth cludiant ôl 16 yng nghyfarfod nesaf y Cabinet.* |

Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 24 Medi 2013

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | |
| **6** | ADOLYGIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2012/13 | Cyflwynodd y Cyng. Barbara Smith yr adroddiad, a gylchredwyd yn flaenorol, a oedd yn rhoi cyfle i'r Cabinet graffu ar ddogfen ddrafft yr Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2012/13, Atodiad I, cyn i'r ddogfen derfynol cael ei chyflwyno i'r Cyngor ym mis Hydref 2013.<br><br>***PENDERFYNWYD*** *– bod y Cabinet yn cytuno i ganiatáu cyflwyno Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2012/13 i'r Cyngor Sir er cymeradwyaeth.* |
| **7** | PROTOCOL TAI Â CHEFNOGAETH | Cyflwynodd y Cyng. Bobby Feeley yr adroddiad, a gylchredwyd yn flaenorol, sy'n nodi proses i alluogi'r Cyngor i wneud penderfyniadau teg a chytbwys am leoliad "tai â chefnogaeth".<br><br>***PENDERFYNWYD*** *- bod y Cabinet yn cytuno:-*<br><br>*(a) mabwysiadu'r protocol sydd ynghlwm wrth Atodiad 1.*<br>*(b) bod gwaith y panel a'r gwaith o ran gweithredu'r protocol yn cael ei fonitro a'i adolygu'n flynyddol gyda chanlyniad yr adolygiad yn cael ei adrodd i'r Cabinet, a*<br>*(c) cynnal archwiliad o leoliad a nifer y cynlluniau tal â chefnogaeth yn Sir Ddinbych.* |
| **8** | POLISI A PHANEL DIOGELU CORFFORAETHOL ARFAETHEDIG | Cyflwynodd y Cyng. Bobby Feeley yr adroddiad, a gylchredwyd yn flaenorol, ar y |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | cynnig i fabwysiadu Polisi Diogelu Corfforaethol a sefydlu Panel Diogelu Corfforaethol aelodau/swyddogion ar y cyd.<br><br>***PENDERFYNWYD*** *- bod y Cabinet yn:-*<br><br>*(a) mabwysiadu'r Polisi Diogelu Corfforaethol.*<br>*(b) sefydlu Panel Diogelu Corfforaethol gyda'r cylch gorchwyl a ddisgrifiwyd yn Atodiad 8, a*<br>*(c) gwneud mynychu hyfforddiant ar ddiogelu yn orfodol i Aelodau Etholedig o fewn y deuddeg mis cyntaf.* |
| **9** | GWASANAETHAU CEFNOGI SYNHWYRAU GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU | Cyflwynodd y Cyng. Eryl Williams yr adroddiad, a gylchredwyd yn flaenorol, sy'n manylu ar ffurfio Gwasanaeth Cefnogi Synhwyrol Gogledd Ddwyrain Cymru, mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Chyngor Sir y Fflint.<br><br>***PENDERFYNWYD*** *- bod y Cabinet yn:-*<br><br>*(a) cydnabod y camau gweithredu cadarnhaol a gymerwyd i wella'r gwasanaeth sydd ar gael i blant a phobl ifanc sydd â nam ar eu synhwyrau ar draws Sir y Fflint, Wrecsam, a Sir Ddinbych.*<br>*(b) cymeradwyo'r penderfyniad i sefydlu gwasanaeth isranbarthol.* |
| **10** | DIWEDDARIAD TRAWSNEWID | Cyflwynodd y Cyng. Julian Thompson-Hill yr adroddiad, a gylchredwyd yn flaenorol, |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | CAFFAEL | sy'n rhoi'r diweddaraf ar y mentrau caffael amrywiol sy'n cael eu cynnal fel rhan o Raglen Trawsnewid Caffael ehangach, a gofynnodd am gymeradwyaeth y Cabinet i barhau â thri phrosiect Caffael fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.<br><br>***PENDERFYNWYD*** *- bod y Cabinet yn:-*<br><br>*(a) rhoi cymeradwyaeth i Sir Ddinbych fod yn aelod swyddogol o Gonsortiwm Prynu Cymru am y 3 blynedd nesaf tan 31 Mawrth 2016, gyda ffi gyfrannu flynyddol o £13,500*<br>*(b) cymeradwyo datblygu Achos Busnes ar gyfer creu gwasanaeth ar y cyd drwy gyfuno Unedau Caffael Strategol Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Sir y Fflint, a*<br>*(c) cymeradwyo datblygu achos busnes ar gyfer y Gwasanaeth Caffael Tair Sir a fyddai i ddechrau'n cynnwys Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Sir y Fflint a Chyngor Gwynedd yn seiliedig ar Strwythur Rheoli Categori* |
| **11** | GWIRFODDOLI, PRENTISIAETH, PROFIAD GWAITH, GRADDEDIGION A SWYDDI HYFFORDDIANT | Cyflwynodd y Cyng. Hugh Evans yr adroddiad, a gylchredwyd yn flaenorol, sy'n darparu crynodeb o'r gwaith sydd wedi ei wneud yn Sir Ddinbych o ran cydlynu nifer o ffrydiau gwaith gan gynnwys gwirfoddoli, swyddi graddedigion, prentisiaethau, profiad gwaith a swyddi hyfforddiant.<br><br>**PENDERFYNWYD** - bod y Cabinet yn mabwysiadu'r:-<br>*(a) Strategaeth Gwirfoddoli Corfforaethol, Atodiad 1, ac yn*<br>*(b) targedau ar gyfer y rhaglen gwirfoddoli a'r holl waith er mwyn datblygu lleoliadau profiad gwaith, swyddi hyfforddiant, swyddi i raddedigion a phrentisiaethau fel y nodir ym mharagraff 4.8 yr adroddiad.* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | |
| **12** | RHEOLI TRYSORLYS | Cyflwynodd y Cyng. Julian Thompson-Hill yr adroddiad, a gylchredwyd yn flaenorol, ar weithgareddau Rheoli Trysorlys y Cyngor, buddsoddiadau a benthyciadau 2012/13 gan gynnwys trosolwg o gefndir economaidd y flwyddyn.<br><br>***PENDERFYNWYD*** *- bod y Cabinet yn:-*<br><br>*(a) nodi'r Adroddiad Rheoli Trysorlys Blynyddol ar gyfer 2012/13.*<br>*(b) gofyn i'r pryderon a godwyd o ran Benthyca Darbodus yr HRH gael eu cyfeirio at Lywodraeth Cymru.* |
| **13** | DEDDF DELWYR METEL SGRAP 2013 | Cyflwynodd y Cyng. David Smith yr adroddiad, a gylchredwyd yn flaenorol, a oedd yn manylu ar ddarpariaethau Deddf Delwyr Metel Sgrap 2-13 ac yn gofyn am gymeradwyo'r pwerau wedi eu dirprwyo a ffioedd yr Awdurdod.<br><br>***PENDERFYNWYD*** *- bod y Cabinet yn:-*<br><br>*(a) dirprwyo pwerau Deddf Delwyr Metel Sgrap i Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd.*<br>*(b) dirprwyo'r penderfyniad i fabwysiadu lefel y ffi ar gyfer trwyddedau Metel Sgrap i Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, gyda chymeradwyaeth gan yr Aelod Arweiniol, a*<br>*(c) caniatáu i Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd adolygu'r ddeddfwriaeth* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | *o ran Delwyr Metel Sgrap yn dangos bathodynnau adnabod.* |
| **14** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET | Cyflwynodd y Cyng. H. H. Evans Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'r Aelodau.<br><br>***PENDERFYNIAD –*** *bod y Cabinet yn derbyn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, yn amodol ar y newidiadau a gytunwyd arnynt.* |
| **15** | RHOI CYTUNDEB AR GYFER CAFFAEL STORFEYDD (TAI) | Cyflwynodd y Cyng. Hugh Irving yr adroddiad, a gylchredwyd yn flaenorol, yn darparu trosolwg o'r rheswm dros gaffael storfeydd a chyflenwad deunyddiau, ac yn argymell contractwr a ffafrir i ddarparu'r gwasanaeth.<br><br>***PENDERFYNWYD*** – *bod y Cabinet yn cymeradwyo dewis Jewson fel y contractwr a ffafrir i gyflenwi storfeydd a deunyddiau ar gyfer y Gwasanaeth Tai am gyfnod o 3 blynedd, gyda'r dewis o ymestyn y cyfnod am flwyddyn arall os oes angen.* |